

## **Cofnodion cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Ganser: Rhaglen Hwyluso Cancer Research UK**

**Dydd Mercher 18 Ionawr 2017**

**Ystafell Friffio'r Cyfryngau yn y Senedd**

**Cadeirydd: Julie Morgan AC**

### **1. Cyflwyniad gan Marion O'Neil, Rheolwr Rhanbarthol Gwledydd Datganoledig ar gyfer Ymgysylltu Proffesiynol Iechyd, Cancer Research UK.**

Amlinellodd Marion sut y mae CR-UK yn gweithio gyda sefydliadau a gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd ar lefel leol a chenedlaethol o ran atal, sgrinio a diagnosis cynnar o ganser. Pwysleisiodd Marion fod gwaith ymgysylltu yn hyblyg ac wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion lleol a/neu genedlaethol, gyda'r nod o annog arfer da (er enghraifft, gyda'n hadnoddau a'n canolfan dystiolaeth ar gyfer sgrinio'r coluddyn), casglu gwybodaeth leol (beth sy'n gweithio a beth y gellid ei wella yn lleol) a chael atebion a lledaenu'r arloesedd hwnnw. Gallai hyn fod mewn practis, ar draws clystyrau neu ar draws Byrddau.

### **2. Trafodaeth ar brofion diagnostig**

Holodd David Rees AC ynghylch cynlluniau Rhwydweithiau Canser Cymru ar gyfer buddsoddi mewn canolfannau diagnosteg yn y dyfodol a dywedodd fod yn rhaid inni sicrhau y buddsoddir yn y gweithlu diagnostig yn ogystal â'r offer.

Nododd Dai Lloyd AC y gall canllawiau atgyfeirio weithiau greu rhwystrau ar gyfer meddygon teulu gan y gall atgyfeiriadau yn aml ddychwelyd os yw meddyg teulu yn teimlo y gallai rhywbeth fod o'i le ond nad oes pryder penodol - gall hyn fod yn anodd ei werthu oni bai ei fod yn atgyfeiriad brys.

Dywedodd Macmillan fod angen i bob meddyg teulu allu cael mynediad prydlon i sganiau. Ar hyn o bryd, mae mynediad yn amrywiol. Ychwanegodd Rhun ap Iorwerth ei bod yn bwysig edrych ar faterion lleol ond yna pennu blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer arfer gorau, yn enwedig os yw'r un problemau yn digwydd mewn rhai ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 09.00.**